*Ysgol Plas Coch*
*Ffordd Stansty*
*Wrecsam*
*LL11 2BU*
*Ffôn: 01978 311198*
*Ffacs: 01978 311198*

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

# YSGOL PLAS COCH

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
*Gwefan*/Website: https://ysgolplascoch.cymru

**Mabolgampau Blwyddyn 1 a 2 – 05:07:23 (prynhawn, cychwyn am 1:15pm)**

Annwyl rieni a gwarchodwyr,
Fel y gwyddoch, cynhelir mabolgampau Blynyddoedd 1 a 2, Dydd Mercher, Gorffennaf 5ed gan gychwyn am 1:15pm, os bydd y tywydd yn caniatáu. Dyma ychydig o wybodaeth am y diwrnod:

- Mi fydd y rasus yn cychwyn am 1:15pm a wedi gorffen erbyn tua 3:15pm
- Mae'r plant i ddod i'r ysgol yn eu gwisg ymarfer corff arferol sef crys T gwyn, siorts tywyll a trainers
- Does dim digon o gadeiriau efo ni yn yr ysgol, felly os am eistedd a wnewch chi ddod â'ch cadair eich hun gan eistedd wrth ochr y trac, nesaf at y ffens.
- **A wnewch chi os gwelwch yn dda beidio â cherdded at yr ardal y mae'r plant yn eistedd ar ochr arall y trac.**
- Os yw hi'n boeth a wnewch chi sicrhau fod gan eich plentyn gap / het a'ch bod wedi rhoi eli haul arno / arni cyn dod i'r ysgol. Os yw'r plant yn medru rhoi eli haul eu hunain, mae croeso iddynt wneud hyn. Hefyd sicrhewch fod digon o ddwr gan eich plentyn.
- Os na allwn gynnal y mabolgampau oherwydd y tywydd, byddwn yn gwneud penderfyniad cyn gynted â phosib yn y bore, gan adael i chi wybod ar yr app a'ch hysbysu pan fyddwn wedi gosod dyddiad newydd.
- Ar ddiwedd y prynhawn, bydd y disgyblion yn mynd yn ol i'w dosbarthiadau a gofynwn i chi eu casglu o du allan y dosbarthiadau fel arfer.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad,

Osian Jones